| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **DYDDIAD** | **15fed Ionawr, 2015** |
| **PWNC** | **Cynnig arbedion C25 – diddymu darpariaeth cefnogaeth TG y tu allan i oriau craidd y Cyngor** |
| **PWRPAS** | **I wyntyllu risgiau sydd yng nghlwm gwireddu'r cynllun gall gael effaith angheuol ar rai carfannau o bobl Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas (ward Menai – Caernarfon)** |

Cefndir

1. Mae'r Adran Cyllid wedi rhoi gerbron nifer o gynlluniau arbedion. Un o'r rhain yw "C25 - Dod a'r gwasanaeth cefnogi tu allan i oriau i ben" sy'n cyflwyno arbedion o £39,450 i'w gwireddu'n llawn yn 2015/16.

2. Mae disgrifiad o'r cynllun yma fel a ganlyn:

   "Mae'r gwasanaeth TG yn gweithredu cynllun cefnogi y tu allan i oriau craidd y swyddfa er mwyn cefnogi gwasanaethau sydd a dibyniaeth ar y gwasanaethau hyn, megis Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden a gweithwyr Gofal. Mae tri aelod gydag arbenigaeth gwahanol ar alwad drwy gydol yr amser, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau statudol. Golyga hyn bod modd cael cymorth i broblem technegol 24-7-365."

3. Nid yw cyflwyno'r cynllun arbediad yma heb ei risgiau, ac mae'n rhaid nodi na fyddai cefnogaeth ar gael i unrhyw weithgaredd TG oddi allan i oriau craidd y Cyngor. Mae hyn yn 18:00 – 08:00 ar ddyddiau'r wythnos, o 18:00 nos Wener i 08:00 fore Llun ar benwythnos ac yn ymestyn i 18:00 nos Iau i 08:00 fore Mawrth ar wyliau'r Pasg.

4. Er bod swyddfeydd y Cyngor ar gau ar yr amseroedd uchod, mae amryw o swyddogion y Cyngor yn parhau i wasanaethu'r cyhoedd ac yn ddibynnol ar systemau ac isadeiledd TG. Byddai colli'r ddarpariaeth TG oherwydd nam systemol yn gwahaniaethu o anghyfleus i argyfyngol.

5. Er yn ddibynnol ar systemau TG, byddai colli'r gwasanaeth gyda'r nos, neu hyd yn oed am benwythnos cyfan i wasanaethau megis y Llyfrgelloedd a'r Canolfannau Hamdden yn anghyfleus, ond ni fyddai'n peryglu bywyd. Mae gweithdrefnau mewn lle i ymdopi a hyn, ond nid yw'n ddelfrydol a gallai olygu bod gwasanaeth i'r cyhoedd yn cael ei gyfyngu.

6. Gall colli'r systemau TG ar gyfer gwasanaethau Gofal fod yn llawer fwy difrifol. Mae'r timau sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn yn delio gyda phobl mewn sefyllfaoedd bregus sydd angen ymateb prydlon a gwybodus. Y sail ar gyfer hyn yw'r system sy'n eu cefnogi a gall ymateb i sefyllfa heb fynediad i'r wybodaeth

sydd yn y systemau beryglu lles y gweithwyr ac/neu cleiantau'r gwasanaeth. Fe all hyn fod drwy wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth hanesyddol yn hytrach na gwybodaeth gyfredol a gall roi swyddogion y Cyngor mewn peryg gan fethu cael at wybodaeth am sefyllfa bygythiol e.e. bod preswylwyr a natur fygythiol neu bod perygl arall, megis ci treisgar.

7. Mae perfformiad y systemau gofal yn ddibynadwy, ac mae'r achlysuron ble mae namau wedi golygu nad yw'r system ar gael yn brin. Fodd bynnag, er bod y tebygolrwydd o golli gwasanaeth yn brin, gall yr oblygiadau fod yn ddifrifol gan gyflwyno bygythiad i iechyd a lles staff a cleiantau'r Cyngor. Mae'r sefyllfa'n gwaethygu dros gyfnod y penwythnos a gwyliau statudol a hwn yn mynd yn gyfnod hirach heb gefnogaeth. Mae'n rhaid rhoi cysidraeth deg i hyn pan yn gwerthuso'r cynllun hwn.